

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Y CABINET

DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2023

Cabinet Members:

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, S.Harris,
J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

Swyddogion yn bresennol:

K.Jones, C.Griffiths, N.Daniel, H.Jones, A.Thomas, D.Griffiths, C.Saunders,
Chele.Howard, N.Blackmore, A.Thomas a/ac T.Davies

Swyddfa Archwilio Cymru:

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a dywedodd wrth y Cabinet fod Eitem 20 – Ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar Lwybrau Diogel a Chyfreithiol wedi'i thynnu'n ôl o gael ei hystyried yng nghyfarfod heddiw.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

The following Member made a declaration of interest at the start of the meeting:

Councill S.Jones

Minute No 19 – Adult Services Strategic Investment – as he is the director of Gentle Care Services, a domiciliary care provider, who are contracted to Neath Port Talbot Council.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol, yn cael eu derbyn fel cofnod cywir:

- 8 Tachwedd 2023
- 20 Tachwedd 2023 (Arbennig)
- 28 Tachwedd 2023 (Arbennig)

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **CHWARTER 2 - MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24**

Penderfyniadau:

1. Bod cynnwys yr adroddiad a gylchredwyd yn cael ei nodi, mewn perthynas ag alldro'r gyllideb a ragwelir ar hyn o bryd ynghyd â sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys ail-bwrpasu cronfeydd wrth gefn y manylir arnynt ym mhrif gorff yr adroddiad.
2. Bod y trosglwyddiadau a nodir ym mhrif gorff yr adroddiad a gylchredwyd, yn cael eu cymeradwyo.
3. Bod y cynnydd yn erbyn yr arbedion y cytunwyd arnynt yn cael ei nodi.
4. Nodir y bydd Swyddogion yn ceisio rhoi mesurau arbed costau a chynhyrchu incwm ychwanegol ar waith yn ystod y flwyddyn, er mwyn lleihau'r sefyllfa gorwariant bresennol. Caiff y mesurau hyn eu cymryd dim ond lle gellir eu cyflwyno o fewn fframweithiau polisi presennol.

Rheswm dros y Penderfyniadau:

Cydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â chyllidebu ar gyfer trosglwyddiadau.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **CHWARTER 2 - MONITRO CYLLIDEB CYFALAF 2023/24**

Penderfyniadau:

1. Bod y gyllideb arfaethedig a diweddaredig ar gyfer 2023/24, sef cyfanswm o £64.0m, yn cael ei chymeradwyo a'i hargymell i'r cyngor.
2. Bod y sefyllfa mewn perthynas â gwariant, ar 30 Medi 2023, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd, yn cael ei nodi.

Rheswm dros y Penderfyniadau:

Cydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddo arian o'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddarau amcanestyniadau'r cyngor ar gyfer Cyllideb 2023/24.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **CHWARTER 2 - MONITRO RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

10. **ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

11. **MONITRO PERFFORMIAD CHWARTER 2**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

12. **EITEMAU BRYS**

Penderfyniad:

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 14 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

13. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

Penderfyniad:

Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

14. **COMISIYNU GWASANAETH EIRIOLAETH A CHEFNOGAETH RHINIEN A CHYMHEIRIAID RHANBARTHOL**

Penderfyniadau:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. ymgwymerir ag ymarfer caffael, i gomisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth a Chefnogaeth Rhieni a Chymheiriaid, ar ran y rhanbarth.
2. Yn dilyn y broses gaffael, rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ymrwymo i gontract gyda'r cynigydd a werthuswyd fel yr un sy'n cynnig y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd (gan ystyried ansawdd a chost y ceisiadau).

Rheswm dros y Penderfyniadau:

Sicrhau bod gwaith i ddatblygu gwasanaethau'n parhau er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal, ac i sicrhau contract sy'n gyfreithiol rwymol rhwng y cyngor a darparwyr gwasanaethau.

15. **NEWID Y DDARPARIAETH WEITHREDOL AR GYFER Y CERBYDLU CERBYDAU A PHEIRIANNAU**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol, ddyfarnu contractau rheoli'r cerbydlu a thelemateg yn uniongyrchol drwy fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Sicrhau caffael brys drwy fframwaith Gwasanaeth Masnachol y Goron i sicrhau systemau newydd addas a fydd yn cynnal cyflwyno gwasanaethau rheng flaen a'r cerbydlu, a hefyd i roi ateb di-oed i'r cyngor ynghylch darparu system gwmwl gyfoes gyda nodweddion ychwanegol wrth leddfu'r pwysau ar adnoddau mewnol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

16. **CYFLEOEDD TENDRO AR GYFER BYSUS LLEOL - DYFARNU CYMORTHDALIADAU DE MINIMIS**

Penderfyniadau:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio a'r Pennaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth, i ddefnyddio'r trefniant De Minimis ddyfarnu comisiynau/contractau gwasanaethau teithwyr yn uniongyrchol, er mwyn cynorthwyo i dendro llwybrau bysus anfasnachol yn y Fwrdeistref Sirol o fis Ebrill 2024.
2. Cytunir ar eithrio'r gofynion ar gyfer cystadleuaeth a gynhwysir yn Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r cyngor, yn unol â Rheol 5 ynddynt, ar gyfer contractau o'r fath a ddyfernir drwy De Minimis yn unol â Rheoliadau 2002.

3. Cytunir i'r Pennaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth ddyfarnu contractau De Minimis yn uniongyrchol i weithredwyr bysiau er mwyn diogelu teithiau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol, yn ôl yr hyn a phryd y mae cyllid yn caniatáu ac yn unol â gofynion Rheoliadau 2002.

Rhesymau dros y Penderfyniadau:

1. Sicrhau bod gan y cyngor offer y gall eu defnyddio sy'n caniatáu iddo arbed cynifer o wasanaethau bysus lleol â phosib.
2. Caniatáu i'r cyngor ymateb yn gyflym i ddisodli'r gwasanaethau bysus lleol presennol sy'n cael eu tynnu'n ôl os yw'r cyllid yn caniatáu.
3. Cynorthwyo gyda'r broses dendro drwy leihau nifer y tendrau/llwybrau y mae angen eu rheoli.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

17. **CANOLFAN CELFYDDYDAU PONTARDAWE**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, cytunir ar yr opsiwn a ffefrir, sy'n ymwneud â Chanolfan Celfyddydau Pontardawe, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Galluogi'r cyngor i fwrw ymlaen â'r cynllun yn amodol ar dderbyn y tendrau terfynol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

18. **CYLLID I WELLA'R SWYDDOGAETH DIGARTREFEDD A THAI STRATEGOL**

Dywedwyd wrth y Cabinet am eiriad diweddaredig i'r argymhelliad, y cytunwyd arno, ac sy'n ymddangos fel y Penderfyniad isod:

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cymeradwyir y defnydd o gronfeydd wrth gefn i ariannu'r newid strategol sydd ei angen yn y Gwasanaethau digartrefedd a thai strategol, fel y nodwyd yn yr adroddiad Preifat a gylchredwyd.

Rheswm dros y Penderfyniad

1. Sefydlogi cyllid y cyngor o ran y lefelau cyfredol a rhagamcanol o orwariant dilywodraeth sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref.
2. Sicrhau bod gwell ymatebion i'r rheini sydd mewn perygl o ddigartrefedd neu sy'n ddigartref.
3. Helpu i sicrhau bod tai cynaliadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot yn unol ag anghenion y boblogaeth.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

19. **BUDDSODDIAD STRATEGOL Y GWASANAETHAU I OEDOLION**

Dywedwyd wrth y Cabinet am eiriad diweddaredig i'r argymhelliad, y cytunwyd arno, ac sy'n ymddangos fel y Penderfyniad isod:

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cymeradwyir y defnydd o gronfeydd wrth gefn i ariannu'r newid strategol sydd ei angen yn y Gwasanaethau i Oedolion, fel y nodwyd yn yr adroddiad Preifat a gylchredwyd.

Rheswm dros y Penderfyniad

1. Ystyried yr adnoddau gofal cymdeithasol sydd ar gael wrth gynnal asesiad neu ailasesiad o anghenion unigolion.
2. Sicrhau bod ystod gynaliadwy o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion dinasyddion mwyaf agored i niwed Castell-nedd Port Talbot
3. Cyfrannu tuag at yr arbedion cyllidebol a nodwyd ym Mlaengynllun Ariannol y cyngor.
4. Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i ail-gydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol drwy symud gwasanaethau i ffwrdd o sefydliadau er elw.

Ymgynghoriad:

Lle bo'n briodol, cynhelir ymarferion ymgynghori unigol ar gyfer y datblygiadau a amlinellir yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd dros gyfnod o 90 niwrnod, er mwyn ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid a cheisio'u barn.

20. **YMGYNGHORIAD Y SWYDDFA GARTREF AR LWYBRAU DIOGEL A CHYFREITHIOL**

Penderfyniad:

Tynnwyd yr adroddiad hwn yn ôl o gael ei ystyried yng nghyfarfod heddiw.

CADEIRYDD